

# SL(5)627 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam) 2020

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 ac yn dynodi bwrdeistrefi sirol Conwy a Wrecsam, a Sir Ddinbych a Sir y Fflint yn ardaloedd diogelu iechyd lleol sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau a gofynion lleol.

Yr effaith mewn perthynas â phob un o'r ardaloedd newydd hyn yw:

- darparu na chaiff unrhyw aelwyd o fewn yr ardal ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig a gwaherddir aelwydydd rhag ffurfio aelwydydd estynedig;
- gwahardd personau sy'n byw ym mhob ardal rhag gadael yr ardal neu aros i ffwrdd o'r ardal heb esgus rhesymol;
- ei gwneud yn ofynnol i drigolion yr ardal weithio gartref, oni bai nad yw'n rhesymol ymarferol iddynt wneud hynny;
- gwahardd pobl o'r tu allan i'r ardal rhag mynd i'r ardal heb esgus rhesymol; Nid yw mynd i ardal ar gyfer gwaith yn esgus rhesymol, os yw'n rhesymol ymarferol i'r gwaith hwnnw gael ei wneud y tu allan i'r ardal.

Rhaid adolygu'r Rheoliadau cyn diwedd 7 Hydref 2020 ac yna o leiaf unwaith bob 7 diwrnod.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.



## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### **1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn fod y Rheoliadau hyn yn cyflwyno cyfyngiadau coronafeirws tynnach yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y Rheoliadau yn ymateb "i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws" ac i'r "bygythiad a berir gan yr achosion cynyddol o'r coronafeirws a'i ledaeniad yn yr ardaloedd hyn ac yn ehangach".

Credwn, lle mae'r cyfyngiadau coronafeirws yn cael eu tynhau mewn unrhyw ffordd arwyddocaol, y dylai Memoranda Esboniadol nodi'r dystiolaeth y mae Llywodraeth Cymru yn dibynnu arni wrth benderfynu bod tynhau o'r fath yn angenrheidiol ac yn gymesur. Credwn y dylai'r un egwyddor fod yn gymwys lle mae cyfyngiadau'n cael eu llacio.

O ran y Rheoliadau hyn, byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru roi tystiolaeth sy'n dangos:

- (a) y dylid cyflwyno cyfyngiadau lleol yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam yn y modd y gwnaed hynny;
- (b) bod cymaint o frys am yr angen am gyfyngiadau lleol yn yr ardaloedd hynny fel nad oedd amser i'r Senedd gymeradwyo drafft o'r Rheoliadau ymlaen llaw;
- (c) nad oedd angen cyflwyno cyfyngiadau lleol mewn rhannau eraill o Gymru.

Bydd darparu'r dystiolaeth hon yn cynorthwyo o ran bod yn dryloyw yn ogystal â gwaith craffu'r Pwyllgor ar y cyfyngiadau coronafeirws, yn enwedig os bydd ardaloedd yng Nghymru yn mynd i gyfres o 'gyfyngiadau treigl' yn ystod y misoedd nesaf.

Credwn hefyd y bydd cynnwys tystiolaeth mewn Memoranda Esboniadol yn helpu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o Femoranda Esboniadol a'r offerynnau statudol eu hunain.

### **2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Fel y nodwyd uchod, mae'r Rheoliadau hyn yn cyflwyno cyfyngiadau coronafeirws tynnach yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.

Nodwn farn Llywodraeth Cymru yn y Memorandwm Esboniadol y gellir cyfiawnhau ymyrryd â hawliau dynol mewn perthynas â'r cyfyngiadau newydd hyn oherwydd bod y nod yn ddilys, sef ymateb i'r pandemig coronafeirws.



### **3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechedd y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.*

*Yn ehangach, cafodd unigolion a busnesau wybod am y cyfyngiadau drwy ddarllodiadau gwybodaeth i'r cyhoedd parhaus ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru a minnau. Wrth wneud y Rheoliadau heddiw fe fu trafodaethau rheolaidd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac â'r awdurdod lleol a chyrrff y GIG ar gyfer ardaloedd Conwy a Wrecsam a Siroedd Ddinbych a Fflint yn ogystal â thrafodaethau parhaus gyda'r Timau Rheoli Digwyddiadau yn yr ardaloedd diogelu iechedd lleol presennol.*

*Ynghyd â Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, rwyf wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau gydol y newidiadau dilynol i'r Rheoliadau. Fe wnaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol esbonio i Aelodau Seneddol [sic] ddoe [29 Medi 2020] fod bwriad i osod y cyfyngiadau a'r gofynion a gyflawnir drwy'r Rheoliadau hyn; mae'r newidiadau arfaethedig wedi cael cyhoeddusrwydd eang gan y cyfryngau.*

## **Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**

Dim.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r pwynt rhinweddau cyntaf.

### **Cynghorwyr Cyfreithiol**

### **Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**7 Hydref 2020**

